# EVANS, JOHN DANIEL (1862 - 1943), arloeswr ym Mhatagonia



**Enw:** John Daniel Evans
**Dyddiad geni:** 1862
**Dyddiad marw:** 1943
**Rhyw:** Gwryw
**Galwedigaeth:** arloeswr ym Mhatagonia
**Maes gweithgaredd:** Teithio
**Awdur:** Richard Bryn Williams

Ganwyd yn Aberpennar yn 1862. Aeth allan i'r Wladfa Gymreig gyda'i rieni yng nghwmni'r fintai gyntaf yn 1865, a daeth yn un o'r marchogwyr gorau yno, yn anturiaethwr gwrol, ac yn arweinydd medrus, cymaint felly nes ei gyfenwi fel ' Y Baceano.' Bu ar daith ymchwil i'r Paith droeon, ond y tro enwocaf oedd hwnnw yn y flwyddyn 1883, pan ymosodwyd arno gan Indiaid yn nyffryn Kel-Kein, ac y lladdwyd ei dri cydymaith cyn iddo ef ei hun lwyddo i ffoi yn wyrthiol drwy gymorth ei ebol Malacara. Arweiniodd fintai i'r Andes yn y flwyddyn 1885, pan ddarganfuwyd ' Cwm Hyfryd,' ac yr oedd yn un o'r sefydlwyr cyntaf i fynd yno yn y flwyddyn 1891.

Treuliodd weddill ei oes yno, hyd ei farw ar 6 Mawrth 1943, yn 81 mlwydd oed.

## Awdur

**Y Parchedig Richard Bryn Williams**, (1902 - 1981)

## Ffynonellau


Eluned Morgan, *Dringo'r Andes* (Y Fenni 1904), 33-41

*Ar Lannau'r Camwy*, 74-86

*Cymry Patagonia* (Aberystwyth 1942), 98-105

*Straeon Patagonia* (Aberystwyth 1946), 77-105

*Cyfansoddiadau Eisteddfod Genedlaethol Hen Golwyn* (1941), 87

A.F. Tschiffely, *This way southward the account of a journey through Patagonia and Tierra de Fuego* (1940), 73-6, 296-8


## Darllen Pellach


Paul W. Birt, *Bywyd a gwaith John Daniel Evans: El Baqueano* (Llanrwst 2004)

Erthygl Wicipedia: John Daniel Evans

## Dolenni Ychwanegol

VIAF: 63516975

Wikidata: Q11685171

**Dyddiad cyhoeddi:** 1953

**Hawlfraint Erthygl:** http://rightsstatements.org/page/InC/1.0/

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n tudalen codi arian am ragor o wybodaeth.

Cyfrannu